

Castell Brychan, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2JB

T 01970 624151 F 01970 625385 e castellbrychan@llyfrau.cymru

Rhyngwyd / Internet llyfrau.cymru gwales.com ffolio.cymru

Prif Weithredwr/Chief Executive: **Helgard Krause**

Teitl y swydd:	Cydlynnydd Llundio Bid Dinas Llên
Adran:	Adran y Prif Weithredwr
Lleoliad:	Castell Brychan, Aberystwyth (gyda gweithio hyblyg)
Band Cyflog:	Graddfa 6
Cyflog:	£36,648–£40,221
Cytundeb:	Cyfnod penodol hyd Ebrill 2025
Dyddiad cychwyn:	1 Medi 2024 (neu gynted â phosibl wedi hynny)
Oriau gwaith:	37 awr yr wythnos (ystyrir ceisiadau am weithio yn rhan-amser a hefyd geisiadau am rannu swydd rhwng dau/dwy)
Nifer o ddiwrnodau o wyliau:	23 diwrnod y flwyddyn a 5 diwrnod brait (bydd angen cymryd 4 dros wyliau'r Nadolig) a'r Gwyliau Banc Statudol
Yn adrodd i:	Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru ynghyd â grŵp Rhanddeiliad Prosiect Ymgyrch Dinas Llên, a gadeirir gan Faer Aberystwyth
Pwrpas cyffredinol y swydd:	Mae'r swydd newydd hon yn hanfodol er mwyn gweithredu Ymgyrch Dinas Llên UNESCO Aberystwyth a Cheredigion. Yn benodol bydd deiliad y swydd yn mynd i'r afael â'r gwaith angenrheidiol i baratoi a chyflwyno cais Aberystwyth a Cheredigion i Bwyllgor Dinasoedd Creadigol UNESCO ym mis Ebrill 2025.

Y CYNGOR LLYFRAU

Elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi ac yn datblygu darllen yng Nghymru yw'r Cyngor Llyfrau. Rydym yn hyrwyddo llythrennedd a darllen er pleser drwy ystod o ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru, gan weithio'n aml mewn partneriaeth ag ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau llenyddol eraill. Sefydlwyd y Cyngor yn Aberystwyth yn 1961 ac rydym yn gweithio gyda chyhoeddwr i feithrin talent a chynnwys newydd yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal â chynnig gwasanaethau arbenigol megis golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu. Rydym hefyd yn gweinyddu grantiau i gyhoeddwr a llyfrwerthwr annibynnol. Daw ein cyllid yn rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol, ac yn rhannol o weithgareddau masnachol a gwasanaeth cyfanwerthu llyfrau ein Canolfan Ddosbarthu.

Mae'r Cyngor yn darparu cynllun pensiwn y bydd modd i'r sawl a benodir gyfrannu ato. Mae'r Cyngor Llyfrau yn aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed, sy'n Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweithredir system oriau gwaith hyblyg ar gyfer y swydd hon.

YMGYRCH DINAS LLÊN: Grŵp Rhanddeiliaid a Chefndir yr Ymgyrch

Mae sawl Dinas Llên UNESCO yn Lloegr a'r Alban ond nid oes yr un yng Nghymru. Mae Aberystwyth, yn gwbl briodol, yn honni mai hi yw prifddinas llenyddiaeth Cymru. Nod Ymgyrch Dinas Llên yw sicrhau y bydd modd arddangos ein treftadaeth ddiwylliannol a llenyddol unigryw a chyfoethog o dan faner fawreddog UNESCO, a thrwy hynny ennill sêl bendith statws rhyngwladol o fri a fydd yn cysylltu'r ardal â rhwydwaith bwysig Dinasoedd Creadigol UNESCO. Nid oes unrhyw fan arall yng Nghymru a allai hawlio'r statws hwn. Braint – a chyfrifoldeb – Aberystwyth a Cheredigion yw taflu goleuni ar draddodiadau llenyddol a chyfoethog yr ardal a Chymru gyfan, a'u cysylltu'n rhyngwladol gyda llenyddiaeth a chyhoeddi byd-eang.

Mae Ymgyrch Dinas Llên yn ffrwyth cydweithio rhwng nifer o sefydliadau lleol, rhai ohonynt â rôl cenedlaethol a rhyngwladol: Cyngor Llyfrau Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Cyngor Tref Aberystwyth, Cyngor Sir Ceredigion, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru (gan gynnwys Cyfnewidfa Lên Cymru, Llenyddiaeth ar draws Ffiniau a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant). Dangosodd astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan gwmni Savills gyda nawdd Cyngor Sir Ceredigion fod cryn botensial i'r ymgyrch. Canlyniad grant llwyddiannus i ARFOR ynghyd ag arian partneriaeth hael gan aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid yw'r nawdd ar gyfer y swydd a hysbysebair.

PRIF DDYLETSWYDDAU'R SWYDD

- 1) Gweithio gyda Grŵp Rhanddeiliaid Dinas Llên i ddatblygu, mireinio, lledaenu a chyfathrebu themâu Ymgyrch Dinas Llên gan gynnwys cynnal cyfrif Instagram a bwydo'r wefan.
- 2) Ychwanegu at dystiolaeth a gasglwyd eisoes o fentrau'r 5 mlynedd diwethaf yn yr Ardal sydd wedi:
 - Hyrwyddo cyfranogiad ehangach mewn gweithgareddau ym maes llenyddiaeth, yn enwedig y gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at grwpiau cymdeithasol difreintiedig neu agored i niwed (3 phrosiect ar y mwyaf)
 - Helpu i greu a/neu gryfhau cysylltiadau cydweithredu rhwng gwahanol grwpiau o bobl a sefydliadau, gan gynnwys llenorion, y sector gwirfoddol, y sector preifat, cymdeithas sifil, y byd academiaidd a/neu randdeiliaid perthnasol eraill (uchafswm o 3)
 - Gwellu statws llenorion a gweithwyr proffesiynol a chefnogi gwaith creadigol ym maes llenyddiaeth
 - Cefnogi a gwella diwydiannau diwylliannol lleol, yn benodol ym maes llenyddiaeth
 - Cysylltiadau â dinasoedd llên a chreadigol o wahanol wledydd
 - Cefnogi a chreu cysylltiadau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ag o leiaf un o'r meysydd creadigol eraill yn Rhwydwaith Dinasoedd Creadigol UNESCO
 - Cefnogi a chreu cysylltiadau llenyddol rhyngwladol
- 3) Amlygu perthynas Ymgyrch Dinas Llên â 17 nod datblygu cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig
- 4) Amlygu perthynas Ymgyrch Dinas Llên â 7 Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- 5) Mewn partneriaeth â'r Rhanddeiliaid, llunio cynllun pedair blynedd sy'n dangos sut y datblygir themâu Ymgyrch Dinas Llên.

- 6) Cyflwyno'r wybodaeth uchod mewn cais a ysgrifennir yn Saesneg i bwyllgor Dinasoedd Creadigol UNESCO yn brydlon yn 2025.

GWYBODAETH A SGILIAU AR GYFER Y SWYDD

Gofynnir am:

- Adnabyddiaeth dda o gyd-destun llenyddol Aberystwyth, Ceredigion a Chymru
- Profiad o lunio a chyflwyno ceisiadau am nawdd yn brydlon a llwyddiannus
- Y gallu i weithio dan bwysau ac i amserlen dynn
- Sgiliau ysgrifennu Saesneg ardderchog
- Diddordeb byw mewn llenyddiaeth o bob math
- Profiad o gydweithio'n llwyddiannus mewn timoedd sy'n cwmpasu cylchoedd proffesiynol a chymunedol
- Sgiliau rhyngpersonol cryf a'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn adeiladol gydag ystod amrywiol o randdeiliaid
- Sgiliau technolegol a gwybodaeth berthnasol i'r swydd (e.e. lledaenu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol priodol a diweddarau gwefan).

Noder bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol:

- Mae'n hanfodol gallu sgwrsio yn Gymraeg ac angen gallu darllen a deall Cymraeg bob dydd
- Gan mai yn Saesneg y bydd angen cyflwyno'r cais i UNESCO bydd angen Saesneg ysgrifenedig rhagorol
- Mae cefnogaeth ar gael i helpu datblygu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig.

CYSYLLTIADAU A CHYFATHREBU

Mewnol	Natur y cyswllt
Prif Weithredwr y Cyngor	Trafod materion gweithredol, e.e. oriau, amserlen ac anfonebau ayb. Sicrhau bod gofynion ARFOR yn cael eu cyrraedd
Ysgrifenyddes Bersonol y Prif Weithredwr, Swyddog Llywodraethiant a Chydlynnydd Cyfarfodydd Ymgyrch Dinas Llên	Trefniadau Gweinyddol
Tîm Rheoli'r Cyngor Llyfrau / Bwrdd yr Ymddiriedolwyr	Adrodd i'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli fel bo angen.

Allanol	Natur y cyswllt
Grŵp Rhanddeiliaid Ymgyrch Dinas Llên gan gynnwys swyddogion ac etholedigion Cyngor y Dref a Chyngor Sir Ceredigion	Cysylltu, trafod a chynnal perthynas broffesiynol adeiladol gyda'r grŵp. Adrodd yn ôl ar gynnydd y cais. Adrodd yn ôl ar sut mae'r gwaith yn cwrdd ag anghenion pecyn ariannu deiliad y swydd. Cynnig argymhellion gweithredu gan gynnwys adnabod ffynonellau nawdd posib. Adnabod unrhyw wendidau lle byddai ymyrraeth yn fuddiol.

Llenorion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol	Cysylltu, trafod a chynnal perthynas broffesiynol adeiladol gyda'r grŵp hwn gan hyrwyddo yn eu plith ddiddordeb yn yr Ymgyrch.
Gweisg lleol a rhanbarthol	Cysylltu, trafod a chynnal perthynas broffesiynol adeiladol gyda'r grŵp hwn gan hyrwyddo yn eu plith ddiddordeb yn yr Ymgyrch.
Grwpiau Cymunedol/Gwirfoddol	Cysylltu, trafod a chynnal perthynas broffesiynol adeiladol gyda'r grŵp hwn gan hyrwyddo yn eu plith ddiddordeb yn yr Ymgyrch.
Swyddogion perthnasol mewn cyrff cenedlaethol gan gynnwys Llenyddiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru	Cysylltu, trafod a chynnal perthynas broffesiynol adeiladol gyda'r grŵp hwn gan hyrwyddo yn eu plith ddiddordeb yn yr Ymgyrch.

CYFRIFOLDEBAU

Am dargedau: Cyflwyno cais cyflawn yn brydlon i Bwyllgor Dinasoedd Creadigol UNESCO ar ran Grŵp Rhanddeiliaid Ymgyrch Dinas Llên.

Noder nad yw'r union ddyddiad cyflwyno'n gyhoeddus eto. Bydd yn digwydd yn ystod Gwanwyn 2025. (Bydd angen cwblhau drafft cais erbyn Ionawr 2025.)

Am bobl: Na

Am gyllideb: Cyfrifoldeb dros wariant yn ymwneud â chyllideb cais UNESCO

Am offer neu stoc: Na

GWNEUD PENDERFYNIADAU / DATRYS PROBLEMAU / YMREOLAETH

Bydd disgwyl i ddeilydd y swydd benderfynu ar ffyrdd o flaenoriaethu gwaith a datrys anawsterau o ddydd i ddydd gan ymateb i newidiadau annisgwyl mewn modd dychmygus a hyblyg.

Bydd disgwyl i ddeilydd y swydd fod yn rhagweithiol yn y gwaith ac yn barod i ymyrryd er mwyn cynnig arweiniad strategol i Grŵp Rhanddeiliaid Ymgyrch Dinas Llên, ac i chwilio am ffyrdd o hyrwyddo, datblygu a chyflwyno'r cais.

CEISIADAU

Ar gyfer gwneud cais, anfonwch CV a llythyr yn egluro pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

Dylai eich CV nodi enwau a chyfeiriadau dau berson y gellir cysylltu â hwy am eirada.

Os yw'r ymgeisydd mewn swydd ar hyn o bryd, dylai'r cyflogwr presennol fod yn un o'r canolwyr.

Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn **canol dydd, dydd Llun, 15 Gorffennaf 2024**, a dylid eu hanfon at:

Menai Ll Williams, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB.

Ffôn: (01970) 629541, neu'n electronig at menai.williams@llyfrau.cymru